Adnabod Awdur

Gareth F. Williams

Llyfrau i blant gan Gareth F. Williams

Adref heb Elin Cyfres Whap!
£5.99 (Gwasg Gomer)
Enillydd Gwobr Tir na n-Og 2007
Dirgelwch Loch Ness £4.95 (Y Lolfa)
Enillydd Gwobr Tir na n-Og 1997
O Ddawns i Ddawns £4.95 (Y Lolfa)
Enillydd Gwobr Tir na n-Og 1991
Pen Cyrliog a Sbectol Sgwâr
Cyfres Cled £4.95 (Y Lolfa)
Jara £2.00 (Gwasg Gomer)
Dial Cyfres Lleisiau £3.00 (CAA)





2007 Lluniau: Adrian J. Willford

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Holiadur Awdur

Gareth F. Williams

Dyddiad Geni: 9 Chwefror, 1955

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Ym Mhorthmadog, Gwynedd.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Eifion Wyn ac Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Yna Coleg y Brifysgol, Bangor a Choleg Cartrefle, Wrecsam.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roedd yn gas gen i wersi gwaith coed, gwaith metel (dw i'n dal i fod yn anobeithiol gyda DIY), mathemateg, cemeg a ffiseg, ond yn mwynhau Cymraeg, Saesneg ac ysgrythur.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Ro'n i wastad eisiau bod yn awdur. Dw i'n cofio gweld llun o'r awdur Capt. W. E. Johns ar gefn cloriau ei nofelau Biggles, a'r tu ôl iddo roedd silffoedd yn llawn o lyfrau roedd o'i hun wedi'u hysgrifennu – a meddwl, 'Dyna be dw i isio un diwrnod'.

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn? ***Treasure Island*** gan R. L. Stevenson, a llyfrau ***Rupert the Bear*** (dw i'n dal i gasglu'r rheiny).

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Ffilmiau, darllen, cerdded glannau, ffotograffiaeth, a phethau arallfydol.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Ysgrifennu, gwanwyn cynnes, nofel neu ffilm dda, siop llyfrau ail-law dda (a'r arian i'w mwynhau yn llawn).

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pobol, gan amlaf – diffyg cwrteisi, twrw aflafar a diangen, carafannau, y ffordd rydyn ni'n efelychu popeth gwael y mae'r Saeson neu'r Americanwyr yn ei wneud, y 'diwylliant' (os diwylliant hefyd!) selebriti sy'n bla ar y cyfryngau . . . gallwn restru llawer mwy, ond dw i ddim eisiau ymddangos fel hen granc blin!

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Pan oeddwn yn blentyn, ond penderfynais roi'r gorau i ddysgu er mwyn ysgrifennu'n broffesiynol ym 1985.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? ***O Ddawns i Ddawns*** (Y Lolfa, 1990).

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Ydw, gan amlaf – ond mae rhai dyddiau sy'n haws na'i gilydd – fel gyda phob swydd, mae'n siŵr.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Dw i'n CASÁU'r cwestiwn hwn! Petai yna ffynnon syniadau yn rhywle, buaswn yn pysgota ynddi bob dydd. Mae'r syniadau'n dod o'r dychymyg, ond weithiau bydd rhyw frawddeg o rywle'n ysbrydoli gwreichionyn bychan.

Ydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc? Cyn belled nad yw hynny'n golygu unrhyw 'dumbing down'. Y tric yw cadw rhyw fath o gydbwysedd rhwng popeth; mae'n bosib bod yn apelgar heb lofruddio'r iaith.

Beth mae ennill Gwobr Tir na n-Og yn ei olygu i chi? Llawer iawn. Er bod awduron (y rhan fwyaf ohonom) yn greaduriaid swil, mae cael gwerthfawrogiad o'r fath yn rhoi hwb anferth i ni fwrw iddi ac ysgrifennu rhagor.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Daliwch ati. Mae'n waith caled iawn, ond mae'r pleser ar y diwedd yn aruthrol, felly peidiwch â digalonni.

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi? Mae elfennau ohonof yn ymddangos mewn sawl cymeriad i raddau.

Pa un yw eich hoff lyfr? Gen i, neu gan eraill? Does gen i ddim hoff lyfr o'm gwaith fy hun – maent i gyd yr un mor bwysig i mi. Gan eraill, wel – rhestr faith. ***Wuthering Heights***, ***Treasure Island***, ***O Law i Law***, unrhyw beth gan P. G. Wodehouse . . .

Pa un yw eich hoff gymeriad? Does gen i ddim ffefrynnau o'm gwaith i fy hun: maent i gyd wedi rhoi pleser a chur pen i mi yn eu tro.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Hoffwn fod yn fwy amyneddgar gyda phobol sy'n mynd ar fy nerfau, a buaswn wrth fy modd taswn i'n gallu canu.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? Does gen i'r un ar hyn o bryd – maen nhw i gyd yn gwneud i mi fod eisiau ffoi i ryw ynys bell.

Beth yw eich hoff fwyd? Bacwn, wy a bara saim.

Beth yw eich hoff atgof? Gorwedd mewn tŷ gwair yn gwrando ar law trwm yn byrlymu ar y to sinc; hedfan mewn hofrennydd ar doriad gwawr dros y Grand Canyon.

Beth yw eich hoff le yn y byd? Y Cob a'r harbwr ym Mhorthmadog; Abaty Tyndyrn.

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Casgliad o argraffiadau cyntaf o lyfrau P. G. Wodehouse; fy nhedi ers dyddiau fy mhlentyndod.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Pobol – a nofelau P. G. Wodehouse.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Dw i'n dipyn o ramantydd, a buaswn wrth fy modd petai'r tylwyth teg yn dal i fodoli.